

Cenhadaeth 15 munud

Ditectif Hanes Treftadaeth

TROSGLWYDDIAD I'R 2000'au

Helo

Fy enw i yw Elora Williams, dach chi ddim yn f'adnabod, ond rydw i o'r dyfodol, y flwyddyn 3011.

Rydw i'n hanesydd ac rwy'n ymchwilio i orffennol gwlad hyfryd Cymru (mae'n lle cyffrous mewn gwirionedd). Ond, mae gen i ofn bod gen i broblem!

Cafodd ein prif lyfrgell ei tharo gan storm gwibfaen a'i ddinistrio, fy nhasg yw disodli'r holl wybodaeth!

Fel y gallwch ddychmygu mae hon yn dasg enfawr ac rydw i eisiau gallu gwneud ein llyfrgell yn llawer gwell nag yr oedd o'r blaen!

Allwch chi fy helpu?

A allwch chi ymgymryd â'r her?

Allwch chi fod yn dditectifs hanes i mi?

Gallaf anfon rhywfaint o wybodaeth atoch trwy'r trawsnewidydd amser i'ch helpu chi.

Byddwn yn gwerthfawrogi'n fawr.

Diolch hynafiaid, gadewch i'r genhadaeth ddechrau ...

DIWEDD TROSGLWYDDIAD

CAIS CENHADAETH YMCHWILYDD AMSER

SYLW: Elora, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n anfon y wybodaeth yn yr amser cywir am y cyfnod amser - yn gywir, Y Comander.

Annwyl Dditectifs Hanes Cymru

Diolch i chi am ymgymryd â'r genhadaeth hanfodol a phwysig hon.

Oeddech chi'n gwybod bod cymaint o hanes yn agos iawn atoch chi, waeth ble rydych chi?

O'r mynwentydd cynhanesiol hynafol, i bentrefi canoloesol rhyfeddol. Yr eglwysi sydd wedi eu trwytho yn chwedlau am y bobl a'u defnyddiodd ac adeiladau cain, unigryw sydd mor bwysig eu bod yn cael eu gwarchod (gelwir y rhain yn ADEILADAU RHESTREDIG).

Eich her, os ydych chi'n dewis ei dderbyn!?! Darganfod pa adeiladau a thirweddau cyffrous sydd gennych chi ar stepen eich drws!

Dyma rai offer defnyddiol i chi eu defnyddio.

<https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru/chwilio-cofnodion-cadw>

https://archwilio.org.uk/arch/index_cym.html

Cofiwch dditectifs, mae eich cenhadaeth yn hanfodol bwysig. Casglwch gymaint o wybodaeth ag y gallwch. Os ydych chi'n gweithio mewn grwpiau bach ac yna'n cymharu'ch darganfyddiadau, rydych chi'n debygol o gasglu mwy o dystiolaeth.

Gallwch chi recordio'ch darganfyddiadau gan ddefnyddio'r ffurflen Cenhadaeth Dditectif rydw i wedi'i hatodi. Diolch a phob lwc!

Elora Williams

20/10/3011

Prif hanesydd ac ymchwilydd

Cydymaith Llyfrgell Luna

CENHADAETH Treftadaeth 15 Munud!

Tasg 1 Casglwr Tystiolaeth Ditectif

- dechreuwch trwy greu bwrdd tystiolaeth yn eich ystafell ddosbarth / cartref, ychwanegwch ffotograffau a lluniau a thystiolaeth arall wrth i chi ddarganfod ffeithiau mwy cyffrous am y dreftadaeth ar garreg eich drws.
- dewch o hyd i'ch cyfeirnod grid cenedlaethol man cychwyn a gweithio allan o'r fan honno. Defnyddiwch fap neu dyma offeryn defnyddiol <https://gridreferencefinder.com/>
- creu map gyda'r pellter wedi'i fesuro ar gyfer taith gerdded 15 munud (tua milltir).
- dewch o hyd i leoedd treftadaeth gorfforol a'u cofnodi: adeiladau, safleoedd a henebion, parciau a gerddi.
- ychwanegwch gymaint o wybodaeth ag y gallwch ei chasglu i adeiladu'ch bwrdd tystiolaeth treftadaeth.

Tasg 2 Ar Genhadaeth!

Cerddwch o amgylch yr ardal i ddod o hyd i'ch amcanion, tynnu lluniau, brasluniau.

Darganfyddwch a chofnodwch leoedd nad ydych efallai wedi sylwi arnynt o'r blaen!

*** Awgrymiadau a chyfeiriadau defnyddiol**

- a allwch chi ddod o hyd i rywun y gallwch chi eu cyfweld am eich darganfyddiadau i gael mwy o wybodaeth? Er enghraifft, os yw'n eglwys, a fyddai rhywun yn hapus i gael ei gyfweld? Neu a oes henuriad doeth a all ddweud mwy wrthy'ch am rai lleoedd? Efallai eich athro neu aelod o'r teulu?
- edrychwch ar-lein am fapiau a gwybodaeth.
- cofiwch, gallai'r lleoedd rydych chi'n chwilio amdanyn nhw fod yn dŷ eich hun hyd yn oed! Mae treftadaeth ym mhobman does dim rhaid iddi fod yn hen iawn.
- peidiwch ag anghofio'ch nodiadau, eich pensiliau a'ch camerâu.

Tasg 4 Gwneud i'ch Gwaith Gyfrif!

- creu llinell amser o'r holl ddarganfyddiadau diddorol rydych chi wedi'u gwneud. Ysgrifennwch ddisgrifiad ar linell amser yr hyn rydych chi wedi'i ddarganfod yn eich ardal chi. Beth yw'r rhan hanesyddol hynaf? Pwy yw'r bobl allweddol? Pa fath o adeiladau sydd gennych chi yn eich ardal chi? Beth ydych chi'n meddwl bydd yn bwysig mewn cyfnod o 100 mlynedd?
- creu pamffled gyda'ch holl wybodaeth a fyddai o fudd i'ch cymuned.
- efallai creu Map stori yma <https://www.esri.com/en-us/arcgis/products/arcgis-storymaps/stories>

Tasg 5 Cwblhau

Ni fydd y trawsnewidydd amser yn gweithio i anfon y wybodaeth yn ôl ataf!

A allech chi ddod o hyd i ffordd arall?

A allech chi greu capsiwl amser? Neu ei anfon at y sefydliad Cadw sy'n cadw'r ffeiliau? Yna gallwn gyrchu eu data a'i uwchlwytho i'r llyfrgell newydd.

A dweud y gwir, efallai y byddai'n fwy diogel gwneud y ddau!

cadw.education@llyw.cymru

(TROSGLWYDDIAD LLAIS)

Diolch Ditectifs

Rwyf wedi fy synnu gan eich ymrwymiad a'ch proffesiynoldeb ac rydych chi wedi cofnodi llawer o ffeithiau newydd a diddorol a fydd yn helpu ein hastudiaethau

Rydych chi wedi helpu i wella ein llyfrgell fel y gallwn ddysgu popeth am eich bywydau.

Dymunaf yn dda ichi a diolch eto

Rwyf wedi anfon tystysgrifau cyflawniad atoch gan ein rheolwr, rydych chi wedi creu argraff fawr arni.

Tan y tro nesaf - daliwch ati i ddysgu!

(DIWEDD Y TROSGLWYDDIAD)

TYSTYSGRIF CYFLAWNIAD

MAE HYN YN CYDNABOD BOD

WEDI CWBLHAU YN LLWYDDIANNUS YR HER
TREFTADAETH 15 MUNUD

Ditectif Hanes Cenhadaeth

YN EIN
BLWYDDYN
3011

COMANDER Judith
Alfrey